Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Ysgol Feithrin Gymunedol Tŷ Plant**

**Ysgol Gynradd Cilffriw**
**Penscynor Cilffriw**
**Castell-nedd**
**SA10 8LF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ysgol Feithrin Gymunedol Tŷ Plant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Tŷ Plant Community Nursery LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 76 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac yn fedrus wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol, sy'n ennyn eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu'n dda iawn.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol yn rheolaidd. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant, gan ddatblygu ac ehangu'r hyn y byddant yn ei ddysgu yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr systemau da ar waith i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r cyfleusterau yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad hwylus i amrywiaeth o gyfarpar, sy'n adlewyrchu bywyd go iawn a'r byd naturiol er mwyn datblygu eu chwilfrydedd.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn parhau i ddatblygu. Maent yn awyddus i ysgogi gwelliant. Ar y cyfan, maent yn cydymffurfio â bron pob un o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol, er bod angen rhywfaint o welliant er mwyn sicrhau cysondeb. Mae sawl argymhelliad wedi'i nodi ar ddiwedd yr adroddiad. Mae'r arweinwyr wedi gweithredu'n ddi-oed i ymdrin â'r argymhellion a godwyd yn yr arolygiad.

**Llesiant** **Rhagorol**

Caiff y plant gyfleoedd amrywiol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Maent yn mynd ati'n llwyddiannus i ddewis pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a pha adnoddau yr hoffent chwarae â nhw. Er enghraifft, gwelsom blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau paentio, gan ddewis pa liwiau, beth a ble yr hoffent baentio, a phlant yn parhau i fwyta eu cinio tra roedd eraill yn chwarae. Maent yn gofyn yn hyderus i'r oedolion am help. Clywsom blentyn yn dweud *“Can you help me with my socks?”,* gyda chymorth yn cael ei roi ar unwaith. Gall y plant ddewis newid eu dillad ar ôl ysgol.

Mae'r plant yn eithriadol o hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni, gan ddweud hwyl fawr, a bwrw ati'n llawn brwdfrydedd i ddechrau chwarae. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol iawn â'i gilydd a'r staff. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn arferol, sy'n golygu eu bod yn trosglwyddo'n effeithiol o un peth i'r llall wrth chwarae. Er enghraifft, adnabod y llun ohonyn nhw eu hunain a hongian eu heiddo. Gwelsom y plant yn chwerthin ac yn gwenu wrth chwarae. Mae'r plant yn cofleidio ei gilydd yn hyderus ar ddechrau'r sesiwn.

Mae'r plant yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn rhyngweithio'n llwyddiannus â'i gilydd a gyda'r oedolion. Gwelsom y plant yn rhannu ac yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd wrth 'drin gwallt' yn y salon chwarae rôl. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, yn cymryd tro ac yn ymgysylltu â'i gilydd wrth gwblhau pos cymhleth o'r byd. Maent yn datblygu eu sgiliau gyda chymorth gan yr oedolion. Er enghraifft, pan oeddent yn cymryd rhan mewn amser grŵp, roeddent yn enwi nodweddion gwahanol gwenyn yn fedrus, cyn iddynt wneud sŵn gwenynen wrth fynd i archwilio arogl, blas, a golwg mêl. Mae'r plant yn bwrw ati'n hyderus i archwilio'r amgylchedd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn dangos diddordeb a hunangymhelliant yn eu chwarae a'u dysgu. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael iddynt yn y lleoliad ac yn yr ardal leol, sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau arllwys yn fedrus. Maent yn trosglwyddo dŵr o un cynhwysydd i un arall, gan ddweud yn hyderus *“I think this one is empty… and this one is… full!”.* Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad y plant a dan arweiniad oedolion. Er enghraifft, pan edrychodd un o'r plant ar hadau roedd wedi'u plannu yr wythnos flaenorol, nododd pa botiau oedd yn sych, gan ddweud yn bendant wrth y staff *“We need to water our plants”*, a arweiniodd at drafodaeth ryngweithiol a diddorol am y ffordd y bydd y gwahanol hadau yn tyfu.

Mae'r plant yn annibynnol ac mae eu sgiliau yn datblygu'n dda iawn. Maent yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi, yn golchi eu dwylo, ac yn gofalu am eu heiddo yn fedrus. Maent yn tynnu eu hesgidiau, ac yn eu gosod ar resel esgidiau wrth gyrraedd, heb i'r staff orfod eu hatgoffa rhyw lawer. Mae'r plant yn clirio eu platiau ar ôl gorffen eu cinio, yn rhoi'r gwastraff bwyd yn y bin ailgylchu ac yn golchi eu llestri yn fedrus.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant ac yn eu rhoi ar waith. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran amddiffyn plant. Mae bron pob un o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys amddiffyn plant, cymorth cyntaf, hylendid bwyd a hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan y rhieni. Nid oes unrhyw anghenion o ran alergeddau nac anghenion deietegol ar hyn o bryd. Mae byrbrydau a diodydd iach yn hyrwyddo agwedd dda at faeth a dealltwriaeth dda o faeth yn y lleoliad. Mae'r rhieni yn paratoi pecynnau bwyd i'r plant, sy'n cael eu storio yn yr oergell ar y safle. Mae arferion glanhau ac arferion hylendid addas ar waith. Mae'r plant yn golchi eu dwylo yn fedrus; mae'r staff yn goruchwylio er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n effeithiol. Mae'r staff yn rhoi eli haul ar y plant, gan ddefnyddio menig ac yn gofyn am ganiatâd cyn gwneud hynny.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol, ac yn annog y plant drwy eu canmol a thrwy ofyn cwestiynau agored. Clywsom y staff yn dweud, *"good pouring",* "*good job*", a *"good listening"*. Maent yn atgoffa'r plant i fod yn gwrtais. Mae'r staff yn ymatebol iawn. Maent yn gwrando ar y plant ac yn cyfathrebu'n dda â nhw. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd ac amynedd. Mae'r staff yn cymryd amser i ryngweithio mewn modd ystyrlon sydd o fudd i'r plant yn eu gofal. Er enghraifft, pan fyddant yn chwarae â cherbydau, mae'r staff yn helpu'r plant i ychwanegu pwysau at y cerbydau, er mwyn gweld a fyddant yn mynd yn gyflymach neu'n arafach. Yn ei dro, arweiniodd hyn at fwy o arbrofi â phwysau gwahanol ac ar raddiannau gwahanol. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n cynnwys cydbwysedd rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plant a chyfleoedd dan arweiniad oedolion. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu. Gwelsom y plant yn dangos diddordeb mewn gwenyn, gyda'r staff yn ategu hynny drwy fynd ati i astudio cylch bywyd y pryfyn.

Maent yn rhoi agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru ar waith, ochr yn ochr â dulliau Montessori. Mae'r gwaith cynllunio yn hyblyg, yn dilyn themâu a phynciau, ac yn cynnwys diddordebau'r plant. Mae'r staff yn cydnabod diddordebau'r plant ac yn datblygu hyn drwy ddefnyddio gwaith cynllunio 'yn y foment'. Er enghraifft, roedd y plant wedi mynegi diddordeb mewn trin gwallt yn flaenorol, felly cyflwynwyd salon chwarae rôl. Maent yn nodi unrhyw anghenion sy'n datblygu, ac mae systemau ar waith i'w diwallu. Mae plant penodol wedi'u neilltuo i bob aelod o'r staff, sy'n eu helpu i feithrin cydberthnasau cryf a'u cefnogi'n dda. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg, gan gyflwyno geiriau ac ymadroddion sylfaenol wrth sgwrsio ac fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas, yn ddiogel, ac mewn cyflwr da. Mae gan ddrws y brif fynedfa glo troi y mae'n rhaid ei agor o'r tu fewn, mae cloch ar y drws a gofynnir i bob ymwelydd lofnodi wrth gyrraedd. Mae canllawiau ar y grisiau ac mae giât ar y top ac ar y gwaelod. Mae'r plant yn defnyddio'r grisiau i gyrraedd eu man chwarae. Ceir asesiadau risg manwl ar gyfer yr adeilad, trafnidiaeth, a'r ardal awyr agored, ynghyd ag asesiadau risg ychwanegol ar gyfer ymweliadau eraill. Mae'r staff yn cwblhau ac yn cofnodi gwiriadau iechyd, gwiriadau diogelwch a gwiriadau glanhau bob dydd. Maent yn cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd, ar adegau gwahanol o'r dydd, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ymarfer y weithdrefn. Mae'r gwiriadau trydanol priodol a gwiriadau priodol o'r diffoddwyr tân yn gyfredol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer y boeler, er bod yr arweinwyr yn cadarnhau eu bod wedi'u cwblhau. Mae arferion glanhau addas ar waith gan yr arweinwyr. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd yr arweinwyr bod y mop a'r bwced wedi cael eu symud o'r toiledau a bod gorchudd wedi'i osod dros y pibellau a oedd i'w gweld yn amlwg yn yr ardal chwarae.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant. Mae'r ardaloedd chwarae dan do yn cynnig digon o le i'r plant symud yn rhydd, gydag ardaloedd chwarae penodol. Mae toiledau addas ar gael i'r plant, ac mae adnoddau newid cewynnau ar gael os bydd eu hangen. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd llachar, golau ac agored. Mae'r addurniadau a'r adnoddau sydd ar gael yn hybu amgylchedd naturiol a digynnwrf. Caiff gwaith celf y plant ei arddangos, a cheir byrddau gwybodaeth i'r rhieni/gofalwyr a'r staff. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn adnodd a gaiff ei rannu, a chaiff ei defnyddio'n aml ar ôl i'r ysgol orffen. Ni wnaethom edrych ar yr ardal hon yn ystod yr arolygiad. Cadarnhaodd y staff eu bod yn aml yn mynd â'r plant am dro yn yr ardal leol, gan gynnwys y goedwig a'r parc lleol. Caiff teithiau i fannau pellach eu trefnu hefyd â chaniatâd penodol gan y rhieni.

Mae'r arweinwyr yn cynnig amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol o ran camau datblygu'r plant. Mae'r cyfarpar ar gael yn hwylus i'r plant, felly gallant ddewis beth sydd o ddiddordeb iddynt yn annibynnol. Mae llawer o'r adnoddau yn adlewyrchu rhannau rhydd, eitemau bob dydd, a'r byd naturiol. Mae'r arweinwyr yn awyddus i hyrwyddo dull gweithredu cynaliadwy, sy'n cynnwys ailgylchu deunyddiau. Mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau sy'n adlewyrchu eu thema bresennol, sef pryfed ac anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys mapiau o'r byd, llyfrau ffuglen, cardiau gwybodaeth, posau, dominos, a gemau paru. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu. Er enghraifft, drwy chwarae rôl, chwarae adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd a gweithgareddau creadigol. Mae rhai adnoddau a chyfleoedd dysgu sy'n ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae trefniadau arweinyddiaeth y lleoliad yn parhau i ddatblygu, ac mae'r arweinwyr yn awyddus i ysgogi gwelliant. Maent yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd yr holl safonau gofynnol cenedlaethol fwy neu lai. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth ar gyfer y lleoliad, a gaiff ei rhannu ag eraill. Nid oedd yr holl ddogfennau ar gael yn barod i ni ar adeg yr arolygiad, a chawsant eu darparu ar ôl yr ymweliad. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac maent wedi gweithredu'n brydlon yn dilyn yr arolygiad i ddarparu gwybodaeth ac i roi gwelliannau ar waith. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, mae datganiad o ddiben a matrics staff cyfredol wedi cael eu lanlwytho drwy'r cyfrif ar-lein. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGC am unrhyw newidiadau yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion rheoliadol ar waith, fel contractau, ffurflenni cydsynio a chofrestrau ar gyfer y plant a'r staff. Ar hyn o bryd, caiff cofrestrau'r staff eu cofnodi ar un system, ochr yn ochr â chwaer-leoliad. Mae system ar-lein newydd wrthi'n cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff cofnodion clir eu cadw mewn perthynas â lleoliadau unigol. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau yn rheolaidd. Mae ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol, dogfennau ceir, gan gynnwys yswiriant, MOT, a threth ar gyfer y bobl sy'n defnyddio cerbydau i gludo'r plant.

Nid yw'r arweinwyr wedi adolygu ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu eto. Yn ddiweddar, maent wedi cwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth drwy eu cyfrif ar-lein. Caiff yr arweinwyr eu cynnwys yn y gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd, gan ddarparu amgylchedd gwaith tîm cefnogol ac effeithiol. Mae ganddynt uchelgais a chynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio addas i ddiogelu'r plant. Mae'r holl wiriadau addasrwydd ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff yn cael eu cefnogi o ddydd i ddydd gan eu harweinydd neu'r person â chyfrifoldeb. Mae'r arweinwyr a'r bobl â chyfrifoldeb yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau, er na chaiff sesiynau goruchwylio ffurfiol eu cwblhau'n ddigon rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, gydag unigolion ac fel tîm yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn rhoi cyfleoedd i'r staff ymgymryd â gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau da â'r rhieni a phartneriaethau â gweithwyr proffesiynol eraill. Maent yn datblygu cysylltiadau cryf â'r ysgol ar y safle, sy'n gwella'r ddarpariaeth i'r plant. Maent yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ac maent yn awyddus i ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae'r rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ap ar-lein. Caiff trafodaethau rheolaidd eu cynnal ar lafar ar ddechrau a diwedd y dydd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau y caiff unrhyw risgiau diangen eu dileu neu eu lleihau |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cwblhau'n llawn, a bod systemau adolygu effeithiol ar waith |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod cofrestrau'r staff yn nodi'n glir pa leoliad maent yn gweithio ynddo, amseroedd egwyl a'r amseroedd pan fyddant yn mynd â phlant i'r ysgol neu'n eu casglu o'r ysgol |
| Safon 21 - Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Sicrhau bod AGC yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau neu ddigwyddiadau o bwys yn y lleoliad |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl gofnodion rheoliadol ar gael yn hwylus ar y safle |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| **Argymhelliad/argymhellion** |
| Sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal yn fwy rheolaidd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2024